PIW 08

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y Pwyllgor Cymunedau,

Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i: Dlodi yng Nghymru Elfen 4

Ymateb gan:Comisiynydd Pobl hyn Cymru

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# i

# Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Dlodi yng Nghymru: Elfen 4

## Ionawr 2015

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart

Tre-biwt
Caerdydd, CF10 5FL
08442 640670

## Gwybodaeth am y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod y rheini sydd yn agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd fwyaf pwysig iddynt hwy sy'n llywio gwaith y Comisiynydd ac mae eu llais wrth galon popeth y mae hi'n ei wneud. Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo - nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

- Yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn annog yr arferion gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn adolygu'r deddfau sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

## Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Elfen 4 – Dulliau o fynd i'r afael â thlodi sy'n canolbwyntio ar gymunedau

1. Fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, rwy'n croesawu'r cyfle i ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Dlodi yng Nghymru[1].

2. Rwyf eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i Ymchwiliad y Pwyllgor o dan Elfen 1: Tlodi ac Anghydraddoldeb[2]. O ran dulliau o fynd i'r afael â thlodi sy'n canolbwyntio ar gymunedau, hoffwn ychwanegu rhai sylwadau ar sail y cylch gorchwyl.

**Cysondeb mentrau gwrthdlodi mewn gwahanol ardaloedd**

3. Er mwyn ymdrin â'r ffaith yr amcangyfrifir bod 84,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi yng Nghymru[3], rhaid taro cydbwysedd rhwng sicrhau dull cyson ledled Cymru a'r hyblygrwydd i ymateb i anghenion a nodweddion lleol, er enghraifft mynd i'r afael ag anghenion penodol mewn ardaloedd trefol/gwledig, a oes angen ymyriadau penodol neu wedi'u targedu ar gyfer ardaloedd sydd â lefel uchel o amddifadedd.

4. Pwysleisiaf eto fod mynd i'r afael â faint o bobl hŷn sy'n manteisio ar eu hawliadau ariannol yn fater allweddol i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio arno. Gallai sicrhau bod yr holl fudd-daliadau sy'n ymwneud ag incwm sy'n ddyledus yn cael eu defnyddio i leihau tlodi ymysg pobl hŷn o draean, sef tua 28,000 o bobl yng Nghymru[4]. Rwy'n ymwybodol o gynlluniau gwych i wneud y mwyaf o incwm ar lefel leol

---

[1] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s29421/Llythyr%20ymgynghori.pdf
[2] http://www.senedd.assembly.wales/documents/s33498/CELG4-30-14%20Paper%204.pdf (Saesneg yn unig)
[3] http://www.ageuk.org.uk/PageFiles/41168/Life%20on%20a%20low%20income%20-%20FINAL%20-%20W.pdf?dtrk=true
[4] http://www.bevanfoundation.org/publications/poverty-and-social-exclusion-in-wales-2/ (Saesneg yn unig)

sydd wedi helpu i godi pobl hŷn allan o dlodi, er enghraifft y prosiect 'Hawliau Lles' yn 2004 yn Rhondda Cynon Taf a helpodd i gynhyrchu £10 miliwn yn ychwanegol o incwm ar gyfer pobl hŷn[5], a'r Grŵp Cynyddu Incwm yn 2009/10 o fewn Partneriaeth Gweithredu Positif 50+ Caerffili a helpodd bobl hŷn i wneud cais am £5.5 miliwn yn ychwanegol o hawliadau mewn un flwyddyn [6].

5. Byddai sefydlu cynlluniau tebyg ledled Cymru yn gwella incwm pobl hŷn yn sylweddol. Mae cynllun 'Cyngor Da, Byw'n Well' Cyngor ar Bopeth, sydd â rhwydwaith eang a sylweddol ledled Cymru, mewn sefyllfa dda i fynd i'r afael â nifer y bobl hŷn sy'n manteisio ar eu hawliadau ac, felly, croesawaf yn gynnes gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru i estyn y cynllun gyda chymorth ariannol o £2.2 miliwn[7]. Dros y misoedd i ddod, byddaf yn parhau i gefnogi ymdrechion Cymorth ar Bopeth i gynyddu nifer y bobl hŷn sy'n derbyn yr incwm y mae ganddynt hawl i'w gael ynghyd â chynlluniau eraill sy'n gweithredu ledled Cymru, fel cynllun 'Mae Budd-daliadau yn Newid' Tai Cymunedol Cymru, ac ymgyrch 'Gadewch i ni Siarad am Arian' Age Cymru [8] [9].

**Pa mor effeithiol yw rhaglenni gwrthdlodi sy'n canolbwyntio ar ardaloedd penodol, fel Cymunedau yn Gyntaf**

6. Ers 2001, ac yn enwedig ers ei hail-lansio fel rhaglen i fynd i'r afael â thlodi sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn 2012 (gan gydnabod y gwendid o ran cyflenwi'r rhaglen cyn hynny[10]), mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi helpu i wella bywydau pobl hŷn sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Rwy'n ymwybodol o rai o gynlluniau gwych Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru sydd wedi helpu i warchod iechyd, annibyniaeth a lles pobl hŷn, gan gynnwys dosbarthiadau TG a mentrau bwyta'n iach [11] [12].

---

[5] http://www.wlga.gov.uk/a-showcase-of-local-authority-implementation-of-the-strategy-for-older-people-in-wales2/rhondda-cynon-taf (Saesneg yn unig)
[6] http://www.caerphilly.gov.uk/application.aspx?s=Be1HHt9Zwb+DymrPRL/0Io/GCiRqPsZWQ8lUU4lPbACVKX/ATqNy7oIv/LYVtW%7B%7BSSWgNFKmGcs= (Saesneg yn unig)
[7] http://wales.gov.uk/newsroom/people-and-communities/2014/141217-citizens-advice-cymru/?skip=1&lang=cy
[8] http://www.yourbenefitsarechanging.co.uk/Cymraeg/default.htm
[9] http://www.ageuk.org.uk/cymru/money-matters/lets-talk-money2/ (Saesneg yn unig)
[10] http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7923%20-%20Public%20Accounts%20Committee%20Report%20on%20Communities%20First-22022010-168311/cr-ld7923-Cymraeg.pdf
[11] http://www.barryanddistrictnews.co.uk/news/11691503.Commissioner_praises_support_for_older_people_in_the_Vale_of_Glamorgan/ (Saesneg yn unig)

7. Mae amcanion y rhaglen o sicrhau Cymunedau Iach, Cymunedau Dysgu a Chymunedau Ffyniannus oll yn berthnasol i bobl hŷn ac yn cydweddu ag amcanion Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn 2013-23 a'r Rhaglen Heneiddio yn Dda yng Nghymru[13] [14].

8. Gan fod dros 12% o'r bobl sy'n byw yn y ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru yn 65 oed neu hŷn[15], rwy'n awyddus i sicrhau bod yr ardaloedd hyn, ac yn wir y 52 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, yn mynd i'r afael yn llawn â thlodi ymysg pobl hŷn ac edrychaf ymlaen at weithio eto gyda Llywodraeth Cymru ar y rhaglen.

> "Mae'n ymddangos nad yw'r broblem o dlodi byth yn diflannu...mae pobl hŷn yn fwy dibynnol ar eu harian cyfalaf gan nad oes unrhyw incwm ychwanegol o elw ar gael bellach...mae'n hen bryd i ni roi dull arall ar waith o fynd i'r afael â thlodi" (preswylydd o Sir Ddinbych)

9. Mae'r rhaglen wedi cael £75 miliwn tan fis Mawrth 2015, ac mae'n amser da yn awr i sicrhau bod cyfnod nesaf Cymunedau yn Gyntaf yn llwyr gynnwys pobl hŷn, yn ogystal ag adeiladu ar y camau a gymerwyd yn 2012 i fesur a deall tlodi ymysg pobl hŷn yn well, er enghraifft, cefnogi menter Gwiriadau Iechyd ar gyfer pobl hŷn a chynnwys dangosyddion â thargedau, fel tlodi tanwydd, tai o safon isel, rhwystrau i deithio ac unigedd cymdeithasol, yn ogystal â faint o Gredyd Pensiwn y gwneir cais amdano[16]. Mae'r dull hwn yn cydweddu â'm gwaith ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau bod y dangosyddion sy'n cefnogi'r chwe amcan llesiant cenedlaethol yn llwyr gwmpasu anghenion ac amgylchiadau pobl hŷn ledled Cymru[17].

---

[12] http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/commissioner-praises-healthy-eating-initiative-7870859 (Saesneg yn unig)

[13] http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/strategies/older/?skip=1&lang=cy

[14] http://www.ageingwellinwales.com/wl/home

[15] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014: Sant Iago 3 (Caerffili, 13.6% 65+ oed) & Gorllewin y Rhyl 2 (Sir Ddinbych, 12.3% 65+ oed) yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ONS (Hydref 2014) (Saesneg yn unig)

[16] http://wales.gov.uk/docs//equality-impact-assessments/141106-EIA-Changes-to-Communities-First-Prog.pdf (Saesneg yn unig)

[17] http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=010103

**Hynt yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Cynulliad 'Tlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig' yn 2008**[18]

10. Fel y mae'r adroddiad yn ei nodi, mae cyfran uwch o bobl hŷn o fewn y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru, ac mae nifer o'r bobl yn y grŵp oedran hwn yn byw ar eu pennau eu hunain. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd bod pobl ifanc yn symud allan o'r ardaloedd hyn a bod pobl hŷn yn symud i mewn iddynt, sy'n creu heriau penodol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Pobl hŷn sy'n parhau, yn anghymesur, i fyw ar y mwyafrif o aelwydydd incwm isel mewn ardaloedd gwledig, ac mae byw mewn ardaloedd gwledig yn fater allweddol sy'n gwaethygu'r hyn sy'n peri tlodi ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd o'r fath [19]. Er enghraifft, mae tlodi tanwydd yn effeithio ar ganran uwch o bobl hŷn (42%) mewn ardaloedd gwledig o gymharu ag ardaloedd trefol (22%)[20], ac mae cael mynediad at wasanaethau allweddol, adnoddau a dysgu gydol oes a sgiliau yn ddrutach oherwydd bod mwy o ddibyniaeth ar drafnidiaeth breifat gan fod llai o opsiynau teithio cyhoeddus mewn ardaloedd mawr lle mae'r boblogaeth ar wasgar. Yn ogystal, tra bod pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn fyw tebygol o fod yn berchen ar dŷ, maent yn dueddol o fyw mewn tai hŷn, sydd felly'n cyflymu'r angen i asiantaethau gwella tai addasu tai i'w anghenion arbennig hwy wrth iddynt heneiddio[21].

11. Fel y nodwyd yng Nghynllun Iechyd Gwledig Llywodraeth Cymru[22], wrth i'r oedran cyffredinol gynyddu, mae pobl hŷn yn fwy tebygol o brofi profedigaeth, diffyg symudedd ac unigedd a cholli trafnidiaeth annibynnol, ffactorau sy'n cynyddu oherwydd y seilwaith drafnidiaeth wael ac ynysiad. Gall lefelau is o bobl hŷn sy'n berchen ar gar olygu

---

[18] http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7185%20-%20Report%20of%20the%20Rural%20Development%20Sub-committee%20on%20its%20inquiry%20into%20Poverty%20and%20Deprivation%20in%20Rural%20-23072008-94141/cr-ld7185-e-Cymraeg.pdf

[19] http://www.walesruralobservatory.org.uk/sites/default/files/Older%20People%20and%20Place%20in%20Wales%20Demography,%20policy%20and%20community%202013.pdf (Saesneg yn unig)

[20] https://www.ebico.org.uk/images/EbicoTrust/NEAfuelpovmon/nea%20fuel%20poverty%20monitor-2011-small.pdf (Saesneg yn unig)

[21] http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Factsheets_W/Taflen_Ffeithiau_Cydraddoldeb_a_Gwledigrwydd.sflb.ashx

[22] http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/100118ruralhealthplancy.pdf

eu bod yn cael eu gwthio i'r cyrion ac na allant gael gafael ar wasanaethau allweddol, darparu gofal plant/teulu na chymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol a hamdden, sydd yn y pen draw yn cael effaith aruthrol ar eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u lles.

12. Fel y pwysleisiaf yn fy adroddiad 'Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru[23], mae'r angen am gysylltiadau gwledig effeithiol wedi cynyddu yn sgil cau banciau, siopau a gwasanaethau eraill lleol, tra bo lleoli unedau arbenigol mewn nifer llai o ysbytai yn golygu heriau ychwanegol a mwy ohonynt i bobl hŷn sydd angen mynd i'r ysbyty. Er bod cynllun teithio'n rhatach ar fysiau Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl hŷn, does dim llawer o werth i docyn bws am ddim os nad oes bysiau cyhoeddus ar gael i'w defnyddio.

13. Rwy'n pryderu am gynnydd rhai o'r argymhellion o adroddiad 2008, ac, yn wir, mae rhai meysydd wedi dirywio. Fel y soniais yn flaenorol, rwy'n awyddus i sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr incwm sy'n ddyledus iddynt o'u hawliadau ariannol, a chan fod llai o bobl hŷn yn hawlio budd-daliadau mewn ardaloedd gwledig, mae'n hanfodol bod cefnogaeth ariannol barhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen 'Cyngor Da, Byw'n Well' Cyngor ar Bopeth yn cynyddu nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn yr ardaloedd hyn, gan weithio gyda phartneriaid allweddol fel Awdurdodau Lleol a'r sector gwirfoddol (Argymhelliad 4).

14. O ran y prif faterion ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r adroddiad yn cyfeirio at y ffaith nad yw pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn gallu gwneud y mwyaf o'u tocynnau bws rhatach a bod nifer y tocynnau y gwneir cais i awdurdodau gwledig amdanynt yn is (65%) o gymharu ag awdurdodau trefol (90%). Yn fwy diweddar, oherwydd bod gostyngiadau enfawr mewn cyllidebau yn effeithio ar y

---

[23] http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Pwysigrwydd_ac_Effaith_Gwasanaethau_Cymunedol_yng_Nghymru.sflb.ashx

ddarpariaeth o wasanaethau bysiau ledled Cymru [24], mae'r sefyllfa hon yn gwaethygu, ac mae'n cael effaith benodol ar bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

15. Anogodd y Pwyllgor Lywodraeth Cynulliad Cymru bryd hynny i ehangu'r cynllun tocynnau bws am ddim i ganiatáu teithio rhatach i bobl hŷn ar ddulliau eraill o deithio (Argymhelliad 5). Tra bo mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus, fel trenau, yn gallu bod yn fuddiol, mae ar bobl hŷn angen bysiau cyhoeddus sy'n teithio'n aml ac sy'n ddibynadwy. Mae pobl hŷn yn canmol trafnidiaeth gymunedol yn fawr a gall gau'r bylchau yn y rhwydwaith drafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, ers i gynllun Menter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol Llywodraeth Cymru ddod i ben yn 2013, caiff trafnidiaeth gyhoeddus ei gweld fel y 'cyswllt angof' a rhaid rhoi cefnogaeth well iddi a'i hintegreiddio â dulliau eraill i fynd i'r afael yn llawn ag anghenion pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig (Argymhelliad 6). Yn ogystal, mae'r darparu gwasanaethau hyblyg ar gyfer y rheini sy'n byw yn bell o ddarpariaeth iechyd prif ffrwd, fel y cydnabuwyd yn yr adroddiad (Argymhelliad 11), yn hanfodol ar gyfer pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig.

> "Pan rydych wedi cael eich hebrwng i Henffordd mewn ambiwlans...gallant eich cadw yno drwy'r dydd ac yna eich taflu allan am 3am heb ffordd i chi ddychwelyd i Landrindod. Felly, mae gennych y dewis o dalu £90 am dacsi neu geisio cael ffrind i ddod i'ch nôl...Rydym yn poeni na fydd pobl yn mynd i'w hapwyntiadau yn yr ysbytai hyn gan nad oes unrhyw ffordd iddynt eu cyrraedd" (preswylwyr Powys)

16. Mae cau gwasanaethau a chyfleusterau lleol wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar wasanaethau ar-lein, ac mae angen gwneud mwy i

[24] Gostyngiadau Llywodraeth Cymru yn 2014/15 i ganran y cyfraddau ad-dalu ar gyfer tocynnau rhatach ar gyfer gweithredwyr bysiau yn arwain at ostyngiad o hyd at 30% mewn gwasanaethau http://www.bettertransport.org.uk/sites/default/files/pdfs/Buses_In_Crisis_Report_2014_Final.pdf (Saesneg yn unig)

ehangu a gwella'r ddarpariaeth band eang mewn ardaloedd lleol er mwyn mynd i'r afael â diffyg cysylltedd a mannau gwan, fel yn rhai rhannau o Gymru wledig sydd â chyflymder band eang sydd bron dwy rhan o dair yn arafach o gymharu â Chaerdydd [25] (Argymhelliad 12). Wedi deud hynny, rhaid cydnabod nad yw pob person hŷn ar-lein ac yn gyfarwydd â systemau TG (amcangyfrifir bod 42% o bobl sy'n 50 oed neu hŷn wedi'u hallgáu'n ddigidol[26]) a bod mathau eraill o wasanaethau 'traddodiadol', er enghraifft, gwasanaethau post a ffôn, yn parhau i gael eu darparu. Mae methu â defnyddio gwasanaethau digidol yn golygu bod nifer o bobl hŷn yn talu'r pris: mae aelwydydd nad ydynt ar-lein yn colli cyfle i wneud arbedion o hyd at £560 y flwyddyn drwy siopa a thalu biliau ar-lein [27], tra bo cynhwysiant digidol hefyd yn gallu helpu i leihau peryglon unigedd ac ynysiad. Felly, mae allgáu digidol yn cyfrannu at yr hyn sy'n peri tlodi ar gyfer nifer o bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

17. Fel yr wyf wedi'i bwysleisio'n gyson, gan fod gwasanaethau bysiau, toiledau, llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol/dydd cyhoeddus yn cael eu dirwyn i ben ledled Cymru, neu mae llai o ddarpariaeth ar gael, ni allwn fforddio i golli'r gwasanaethau cymunedol hyn, sy'n hanfodol ar gyfer gwarchod iechyd, annibyniaeth a lles pobl hŷn, ac ar gyfer cynnal costau pecynnau iechyd a gofal cymdeithasol statudol. Nid lleihau cyllidebau fesul darn yn y dirgel yw'r ffordd o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus mewn modd modern, ac rwyf yn llwyr gefnogi argymhelliad y Pwyllgor i annog grwpiau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu cyfleusterau y mae cymunedau'n berchen arnynt (Argymhelliad 13).

18. Gan fod Awdurdodau Lleol yn wynebu gostyngiadau pellach dros y blynyddoedd nesaf, ni fu erioed mwy o alw am ddulliau amgen ac arloesol ar gyfer darparu gwasanaethau, yn enwedig mewn

---

[25] http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/revealed-great-broadband-not-spot-divide-6274754 (Saesneg yn unig)

[26] Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru 2014

[27] http://www.housing.org.uk/policy/investing-in-communities/federation-support-for-community-investment/digital-inclusion/ (Saesneg yn unig)

ardaloedd gwledig. Mae gwefan Iechyd Gwledig y GIG yn cynnwys rhai enghreifftiau ysbrydoledig [28], a bydd fy adroddiad arfaethedig ar wasanaethau cyhoeddus arloesol ar gyfer pobl hŷn yn amlygu'r arfer da ledled Cymru, gan ddangos sut i ddarparu mwy gyda llai o arian drwy fod yn arloesol. Anogaf Lywodraeth Cymru i wneud mwy i annog Awdurdodau Lleol, asiantaethau a'r sector gwirfoddol i ddatblygu dulliau gweithredu arloesol mewn ardaloedd gwledig (Argymhelliad 18).

19. Mae'n hanfodol bod Cymru yn gwneud y mwyaf o Raglen Datblygu Gwledig newydd yr UE ar gyfer 2014-2020 i fynd i'r afael â thlodi mewn ardaloedd gwledig[29]. Mae'r dull datblygu o dan arweiniad y gymuned, drwy weithgareddau fel cynlluniau ynni adnewyddadwy, cynlluniau trafnidiaeth cymunedol a mynediad at wasanaethau ariannol yn y gymuned, yn gallu gwneud llawer i wella bywydau pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y rhaglen newydd.

20. Yn olaf, er bod gan bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yr un anghenion â'r rheini mewn ardaloedd trefol, rhaid pwysleisio bod yr anghenion hynny'n gwaethygu oherwydd arwahanrwydd[30]. Mae'r angen i integreiddio gwasanaethau ar draws tai, iechyd a gofal cymdeithasol, wedi'i gefnogi gan ddarpariaeth drafnidiaeth a thechnolegol ddigonol i sicrhau mynediad, yn dod yn fwyfwy pwysig er mwyn cefnogi byw annibynnol ar gyfer pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig a mynd i'r afael â gwraidd yr hyn sy'n peri tlodi, ac anogaf Lywodraeth Cymru i weithio gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'r sector gwirfoddol a phartneriaid allweddol eraill i fynd i'r afael â'r broblem allweddol hon mewn hinsawdd economaidd sy'n gynyddol heriol.

[28] http://www.wales.nhs.uk/healthtopics/populations/ruralhealth (Saesneg yn unig)
[29] http://wales.gov.uk/docs/drah/consultation/140219rdp20142020finalproposalscy.pdf
[30] http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Factsheets_W/Taflen_Ffeithiau_Cydraddoldeb_a_Gwledigrwydd.sflb.ashx